# Rhestr Wirio Hunanarfarnu'r Fenter Twyll Genedlaethol

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Fersiwn: Terfynol

Cyfeirnod y ddogfen: 4608A2024

# Cynnwys

Ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol.....................................................................................3
Ynglŷn â'r ddogfen hon..........................................................................................................3
Rhestr wirio hunanarfarnu ......................................................................................................4

# Ynglŷn â'r Fenter Twyll Genedlaethol

1 Ymarfer atal twyll ledled y DU a gynhelir bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Mae'n defnyddio technegau cyfrifiadurol i gymharu gwybodaeth am unigolion a gedwir gan wahanol gyrff cyhoeddus, ac ar systemau ariannol gwahanol, a allai awgrymu bod twyll neu wall yn bodoli.

2 Mae deilliannau twyll, gwall a gordaliadau gwerth £7.1 miliwn wedi cael eu cofnodi gan gyfranogwyr Ymarfer 2022-23 Y Fenter Twyll Genedlaethol. Y tu hwnt i unrhyw arbedion ariannol, mae manteision cyfranogi ac adolygu pariadau data'n cynnwys y sicrwydd y gall canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol eu darparu ynghylch systemau rheolaeth fewnol. Gall canlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol amlygu meysydd ar gyfer gwella hefyd.

3 Mae Awdurdod Twyll y Sector Cyhoeddus – rhan o Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU a Thrysorlys EF – yn goruchwylio'r Fenter Twyll Genedlaethol ledled y DU. Archwilio Cymru sy'n arwain yr ymarfer yng Nghymru dan bwerau'r Archwilydd Cyffredinol yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae Cod Ymarfer Paru Data Archwilydd Cyffredinol Cymru'n crynhoi'r ddeddfwriaeth, a rheolaethau, allweddol, ar gyfer yr ymarfer yng Nghymru.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi mandadu bod awdurdodau lleol unedol, cyrff y GIG, heddluoedd, ac awdurdodau tân ac achub yn cyfranogi yn y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae sefydliadau eraill, megis Llywodraeth Cymru, a rhai o gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru, yn cyfranogi'n wirfoddol.

5 Mae gwybodaeth am y Fenter Twyll Genedlaethol hefyd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

# Ynglŷn â'r ddogfen hon

6 Mae'r Fenter Twyll Genedlaethol yn un agwedd ar drefniadau atal twyll sefydliad. Rydym wedi paratoi'r rhestr wirio hon er mwyn helpu cyrff sy'n cyfranogi i hunanarfarnu sut y maent yn ymgysylltu â'r Fenter Twyll Genedlaethol.

7 Rydym yn annog pob corff sy'n cyfranogi i gwblhau'r rhestr wirio a'i chyflwyno i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i gefnogi'r gwaith o graffu ar drefniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol.

# Rhestr wirio hunanarfarnu

| | | Ie / Yn rhannol / Na | Sylwadau / camau gweithredu | Os oes angen cymryd camau gweithredu, gan bwy ac erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth, ymrwymiad a chyfathrebu** | | | | |
| 1 | A ydym wedi ymrwymo i'r Fenter Twyll Genedlaethol?<br>A yw'r cyngor / bwrdd, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ac uwch-reolwyr wedi mynegi cefnogaeth i'r ymarfer ac a yw hyn wedi'i gyfleu i'r staff perthnasol? | | | |
| 2 | A ydym wedi cyflwyno adnoddau penodol i gefnogi rheolaeth gyffredinol y Fenter Twyll Genedlaethol?<br><br>Os yw'r wybodaeth ar gael, faint o amser a dreuliodd y Cyswllt Allweddol ar yr ymarfer diwethaf, a faint sydd wedi'i neilltuo ar gyfer yr ymarfer nesaf? | | | |
| 3 | Ai'r Cyswllt Allweddol yn y Fenter Twyll Genedlaethol yw'r swyddog priodol ar gyfer y rôl honno, h.y. a oes ganddo ddigon o awdurdod er mwyn sicrhau bod ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gyflawni'n effeithiol? | | | |
| 4 | A yw'r archwilwyr mewnol, neu swyddogion cyfatebol, yn monitro ein hymagwedd at y Fenter Twyll Genedlaethol a'n prif ganlyniadau, gan sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw wendidau mewn achosion perthnasol? | | | |

| | | Ie / Yn rhannol / Na | Sylwadau / camau gweithredu | Os oes angen cymryd camau gweithredu, gan bwy ac erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| **Cynllunio a pharatoi** | | | | |
| 5 | A ydym yn cynllunio'n briodol ar gyfer pob agwedd ar ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol ac yn gosod ein terfynau amser mewnol ein hunain? | | | |
| 6 | O ran ymarfer 2024-25 Y Fenter Twyll Genedlaethol, a wnaethom ddarparu holl ddata'r Fenter ar amser gan ddefnyddio'r cyfleuster lanlwytho ffeiliau data diogel yn gywir? | | | |
| 7 | O ran ymarfer 2024-25 Y Fenter Twyll Genedlaethol, a wnaethom gadarnhau'n brydlon (gan ddefnyddio'r cyfleuster ar-lein ar y wefan ddiogel) ein bod wedi bodloni'r gofynion hysbysiad prosesu teg? | | | |
| 8 | A ydym yn adolygu ein canlyniadau Ansawdd Data cyn dechrau ein hymchwiliadau?[1] | | | |
| 9 | A yw'r staff yn neilltuo amser i ddarllen y canllawiau a ddarperir ar sut i wneud gwaith dilynol ar waith paru'r Fenter (sy'n arbennig o bwysig i'r defnyddwyr hynny sy'n dod ar draws y Fenter am y tro cyntaf), ac a ydynt yn ymgynghori â thîm y Fenter os ydynt yn ansicr ynghylch sut i gofnodi canlyniadau? | | | |

[1] Gallai'r modiwl Ansawdd Data nodi bod problemau gyda'r data a gyflwynwyd a allai fod wedi effeithio ar rai o'r pariadau. Gellir cyrchu'r modiwl o dudalen Ymarfer Cenedlaethol perthnasol yr ap gwe.

| | | Ie / Yn rhannol / Na | Sylwadau / camau gweithredu | Os oes angen cymryd camau gweithredu, gan bwy ac erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| 10a | A ydym wedi ystyried defnyddio’r gwasanaeth paru data ar adeg ymgeisio a gynigir gan dîm y Fenter Twyll Genedlaethol (AppCheck) er mwyn gwella rheolaethau mewnol, ac er mwyn atal achosion o dwyll a gwallau rhag digwydd? | | | |
| 10b | Os nad ydym yn defnyddio AppCheck, a oes sail resymegol glir dros hyn? | | | |
| **Gwaith dilynol effeithiol yn sgil parau** | | | | |
| 11 | A ydym wedi cofnodi ein dull ar gyfer asesu risg adroddiadau paru data ac ymchwilio i bariadau data?[2] | | | |
| 12 | A yw ein dull yn rhoi blaenoriaeth i risgiau twyll lleol?[3] | | | |

[2] Nid ydym yn disgwyl i sefydliadau edrych ar bob pariad data nac adroddiad. Yn lle hynny, dylent flaenoriaethu pa bariadau i edrych arnynt a’r drefn y gwneir gwaith dilynol arnynt. Efallai y byddant am asesu eich pariadau yn ôl meysydd risg twyll ac yna yn ôl sgorau risg. Fel arall, efallai y byddant am sefydlu hidlwyr pwrpasol gan ddefnyddio’r offeryn hidlo. Dylid Cau unrhyw bariadau na ymchwiliwyd iddynt – Heb eu Dewis ar gyfer Ymchwilio.

[3] Rydym yn awgrymu y dylai Cyswllt Allweddol y Fenter Twyll Genedlaethol (gyda chymorth gan Archwilwyr Mewnol/Atal Twyll) adolygu amgylchedd a systemau rheoli cyffredinol y sefydliad. Dylai adroddiadau archwilio mewnol presennol a/neu gofrestr risgiau eich sefydliad gynorthwyo’r adolygiad hwn. Rydym yn cynghori blaenoriaethu adroddiadau pariadau data sy’n gysylltiedig â meysydd sydd â rheolaethau mewnol anhysbys neu wan, neu feysydd sydd wedi cael achosion hanesyddol o dwyll. Dylai sefydliadau hefyd edrych yn ôl i weld pa adroddiadau mewn ymarfer blaenorol a roddodd ganlyniadau iddynt.

| | | Ie / Yn rhannol / Na | Sylwadau / camau gweithredu | Os oes angen cymryd camau gweithredu, gan bwy ac erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| 13 | A yw ein dull yn rhoi blaenoriaeth i wneud gwaith dilynol ar bariadau risg uchel, y rhai sy'n dyddio yn gyflym, a'r rhai a allai achosi niwed i enw da os na chaiff twyll neu wall ei atal yn gyflym?[4] | | | |
| 14 | A oes digon o adnoddau ac arbenigedd ar gael ar yr adeg gywir i wneud y defnydd gorau o ganlyniadau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol?[5] | | | |
| 15 | A yw'r Cyswllt Allweddol yn cydlynu ymchwiliadau ar draws adrannau mewnol i atal dyblygu ymdrech neu oedi wrth nodi gordaliadau a sicrhau bod yr holl gamau gweithredu perthnasol yn cael eu cymryd, er enghraifft, drefnu ymchwiliad ar y cyd i bariadau gostyngiadau person sengl sy'n cynnwys budd-dal tai? | | | |
| 16 | (Mewn cyrff iechyd) A ydym yn manteisio ar y cymorth a'r arbenigedd sydd ar gael gan Wasanaeth Atal Twyll Cymru y GIG yn briodol? | | | |

[4] Defnyddiwch yr offer o fewn y rhaglen we, megis yr opsiynau hidlo a didoli neu feddalwedd dadansoddi data, er mwyn helpu i flaenoriaethu'r hyn a ystyrir yn y risg uchaf.

[5] Wrth enwebu defnyddwyr i ymchwilio i bariadau, dylai sefydliadau ddewis y person sydd â'r fwyaf o wybodaeth am y set ddata. Er enghraifft, mae'n well i berson enwebedig yn yr adran archwilio mewnol neu'r tîm cyfrifon taladwy ymdrin â phariadau credydwyr masnach. Rydym hefyd yn awgrymu penodi defnyddiwr fel prif gyswllt set ddata ar gyfer pob set ddata y mae eich sefydliad yn ei chyflwyno, fel y gall cyfranogwyr eraill y Fenter gysylltu â'r person mwyaf addas i gynorthwyo eu hymchwiliad, os oes angen. Os na fydd sefydliadau yn enwebu prif gyswllt set ddata, y cyswllt diofyn fydd y Cyswllt Allweddol.

| | | Ie / Yn rhannol / Na | Sylwadau / camau gweithredu | Os oes angen cymryd camau gweithredu, gan bwy ac erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| 17 | A ydym yn ymchwilio'n ddigonol i amgylchiadau pariadau, yn benodol cyn cyrraedd canlyniad 'dim problem'? | | | |
| 18 | A ydym yn adolygu sut y cododd achosion o dwyll a gwallau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i wella ein rheolaethau mewnol? | | | |
| 19 | A ydym yn cymryd camau priodol mewn achosion o dwyll honedig (boed yn gamau disgyblu, cosbau/rhybudd neu riportio i'r Heddlu neu Wasanaeth Atal Twyll Cymru y GIG) neu lle mae gwallau'n cael eu nodi, e.e. adennill arian? | | | |
| 20 | A ydym yn ymateb yn brydlon i ymholiadau gan sefydliadau eraill sy'n cyfranogi yn y Fenter?[6] | | | |
| **Cofnodi ac adrodd** | | | | |
| 21 | A ydym yn cofnodi canlyniadau'n briodol yn y wefan ddiogel ac yn ei chadw'n gyfoes. | | | |
| 22 | A ydym yn rhoi adborth priodol a rheolaidd i uwch-reolwyr, aelodau'r bwrdd / cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu gweithgareddau a chanlyniadau'r Fenter Twyll Genedlaethol? | | | |

[6] Mae'r cymhwysiad gwe yn dangos nifer y sylwadau a rennir y mae angen ymateb iddynt (Camau Gweithredu Eithriadol). Dylid blaenoriaethu'r ymatebion hyn os ydynt yn ymwneud ag ymchwiliad sy'n mynd rhagddo fel y gellir bwrw ymlaen ag ef yn brydlon.

| | | Ie / Yn rhannol / Na | Sylwadau / camau gweithredu | Os oes angen cymryd camau gweithredu, gan bwy ac erbyn pryd? |
|---|---|---|---|---|
| 23 | A ydym yn rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu bod y rhesymau dros dwyll a chamgymeriadau'n cael eu deall, a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw a gwella rheolaethau mewnol? | | | |
| 24 | Pan nad ydym wedi cyflwyno data nac wedi defnyddio'r pariadau a ddychwelwyd i ni, e.e. gostyngiadau yn y dreth gyngor i berson sengl, a ydym yn fodlon bod trefniadau amgen ar waith i ganfod twyll ac rydym yn gwybod pa mor llwyddiannus ydynt? | | | |
| 25 | A ydym yn cyhoeddi, fel ataliad, yn fewnol ac yn allanol, ganlyniadau ymarfer y Fenter Twyll Genedlaethol? | | | |
| 26 | Os ydym yn dewis cofnodi rhai o'r canlyniadau neu'r holl ganlyniadau y tu allan i'r wefan ddiogel, a ydym wedi gwneud trefniadau i roi gwybod i dîm y Fenter Twyll Genedlaethol am y canlyniadau hyn?[7] | | | |

[7] Er ei bod hi'n well i holl waith y Fenter gael ei gofnodi o fewn y cymhwysiad gwe ddiogel, rydym yn sylweddoli y gall fod achosion pan fydd angen i sefydliadau wneud gwaith ar y pariadau y tu allan iddo. Cyn gynted ag y caiff data ei dynnu o gymwysiadau gwe diogel y Fenter Twyll Genedlaethol, sefydliadau sy'n gyfrifol am ddiogelwch y data, gan gynnwys osgoi datgelu amhriodol a sicrhau ei fod yn cael ei ddinistrio pan nad oes ei angen mwyach. Felly, rydym yn cynghori allforio data dim ond pan fo'n hanfodol gwneud hynny.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.